






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

26 Mawrth 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

26 Mawrth 2021

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae nifer yr achosion newydd yng Nghymru wedi **lleihau 11%** ar lefel genedlaethol yr wythnos hon i **38 achos fesul 100,000**, yn dilyn gostyngiad bach yr wythnos diwethaf.
- Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn gweld gostyngiadau mewn achosion, ond mae digwyddedd yn parhau'n uwch ym Merthyr Tudful, lle mae cynnydd bach yn nigwyddedd achosion, ac Ynys Môn, lle mae digwyddedd achosion yn sefydlog, yn rhannol o ganlyniad i fwy o brofion wedi'u targedu.
- Yr amcangyfrif diweddaraf gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu (R_t) yw rhwng **0.7 a 0.9** ar gyfer Cymru, sy'n golygu bod cyfradd twf y feirws wedi **crebachu 6 i 2%**.
- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyfrifo R_t ar sail nifer yr achosion positif, yn amcangyfrif bod R_t yn **1.0**, gan olygu **cyfradd twf o 0.3% y dydd**. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod achosion ymysg pobl 60+ oed yn **crebachu ar gyfradd o 2.8% y dydd**.
- **Mae marwolaethau COVID-19 a gofnodwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ostwng** gyda **gostyngiad o 34%** ar gyfer y cyfnod o 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 23 Mawrth, ond cafwyd **21 o farwolaethau** o COVID-19 yn y cyfnod hwnnw. Ceir tystiolaeth bod cyflwyno brechlynnau yn dechrau lleihau'r gydberthynas rhwng y niferoedd yn yr ysbyty/nifer y marwolaethau a chyfraddau achosion (hyder uchel).
- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi adrodd bod cyfanswm nifer y marwolaethau a gofrestrwyd ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 12 Mawrth yn is na'r cyfartaledd pum mlynedd am yr ail wythnos olynol. Yng Nghymru, bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau cysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd o **103 i 68**, sef **9.9% o'r holl farwolaethau**.
- Mae mewnfurio amrywiolynnau newydd yn parhau i beri pryder sylweddol a lleihau'r risg o drosglwyddo a mewnfurio achosion ar y ffin yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd o leihau'r risg y bydd amrywiolynnau newydd yn dod i'r amlwg yn y DU (hyder uchel). Mae cydheintio sy'n arwain at straeniau ailgyfunol newydd hefyd yn fwy tebygol pan fydd cyffredinrwydd yn uwch ac felly bydd cadw achosion yn isel yn parhau i fod yn bwysig er mwyn lleihau'r risg hon.
- Er y bydd y niferoedd yn uwch oherwydd bod data'n dal i gael eu cofnodi, ar 26 Mawrth mae **1,387,583 (+128,814) dos cyntaf o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yng Nghymru ac mae 412,663 (+155,265) o bobl wedi cael eu hail ddos**.
- **Mae data symudedd yn parhau i ddangos cynnydd yn dilyn y newid yn y canllawiau, o aros gartref i aros yn lleol, ar 13 Mawrth**. Ar gyfer y cyfnod diweddaraf, roedd symudiad defnyddwyr Facebook 20% yn uwch na'r wythnos flaenorol ond 14% yn is na'r llinell sylfaen, tra mae data symudedd ar gyfer y gweithle yn parhau'n sefydlog i bob pwrpas ar 31% yn is na'r llinell sylfaen a chynyddodd manwerthu a hamdden i 41% yn is na'r llinell sylfaen (o Google).

- Ar 26 Mawrth ar gyfer y cyfnod 7 diwrnod diweddaraf, mae **nifer y bobl yn yr ysbyty** y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt wedi **parhau i ostwng** i gyfartaledd wythnosol o **168 o welyau yn cael eu defnyddio**, sy'n **ostyngiad o 31%**. Mae'r **defnydd o welyau Unedau Gofal Dwys (ICU) ar gyfer COVID-19 hefyd wedi parhau i ostwng**. Mae cyfartaledd wythnosol o **23 o welyau ICU yn cael eu defnyddio** (o'i gymharu â'r cyfartaledd wythnosol o 20-30 o welyau yn cael eu defnyddio ar ddechrau'r pandemig), sy'n **ostyngiad o 21%** o'r cyfnod 7 diwrnod blaenorol.

Mae dadansoddiad modelu'r Grŵp Cyngor Technegol o system Profi, Olrhain, Diogelu Cymru wedi'i gyhoeddi [yma](#) [Saesneg yn unig]. Mae'n amcangyfrif bod Profi, Olrhain, Diogelu, pan oedd y gyfradd drosglwyddo a chyffredinrwydd yn uchel yn ystod y gaeaf (y tu allan i'r cyfnod atal byr), wedi lleihau R_t o tua 1.7 i 1.3. Gan ddefnyddio gwerthoedd R diweddar a gwelliannau i ganfod achosion ac amseroedd profi ac olrhain, gallai'r effaith fod yn ostyngiad o tua 1.3 i 0.8.

- Mae papurau sydd wedi'u cyhoeddi gan SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol ar gael [yma](#).

Papurau'r Grŵp Cyngor Technegol/y Gell Cyngor Technegol a gyhoeddwyd yr wythnos hon:

- [Y Grŵp Cyngor Technegol: modelu diweddaraf system Profi, Olrhain, Diogelu Cymru 24 Mawrth 2021 \[Saesneg yn unig\]](#)
- [Y Grŵp Cyngor Technegol: archwilio marwolaethau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â COVID-19 24 Mawrth 2021](#)

Papurau SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon [Saesneg yn unig]:

- [Y Grŵp Diweddarau Brechlynnau: Ystyriaethau o ran pryd a sut i ddiweddarau brechlynnau SARS-CoV-2, 11 Mawrth 2021](#)
- [Iechyd Cyhoeddus Lloegr \(PHE\): Ymchwilio i amrywiolynnau newydd SARS-CoV-2 sy'n peri pryder \(Lloegr\) – briff technegol 7, 11 Mawrth 2021](#)
- [Adroddiad Dynamig CO-CIN i SAGE a NERVTAG \(achosion diweddar\), 11 Mawrth 2021](#)
- [Grŵp Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru: Modelu diweddaraf system Profi, Olrhain, Diogelu Cymru, 1 Chwefror 2021](#)
- [Cofnodion SAGE 83: Ymateb i'r Coronafeirws \(COVID-19\), 11 Mawrth 2021](#)
- [ISARIC4C: Cleifion sydd wedi'u brechu tra maent yn yr ysbyty yn ystod yr ail don, 11 Mawrth 2021](#)
- [SPI-M-O: Datganiad consensws ar COVID-19, 10 Mawrth 2021](#)
- [SPI-M-O: Amcanestyniadau tymor canolig, 10 Mawrth 2021](#)
- [Grŵp Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru: Diweddariad modelu polisi, 18 Rhagfyr 2020](#)